



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

YSTADEGAU

Staff a gyflogir yn uniongyrchol gan y GIG: ar 31 Rhagfyr 2022

Data am staff meddygol, deintyddol, nyrsio a bydwreigiaeth, ar
31 Rhagfyr 2022.

Cyhoeddwyd gyntaf: 17 Mai 2023

Diweddarwyd ddiwethaf: 17 Mai 2023

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/staff-gyflogir-yn-uniongyrchol-gan-y-gig-ar-31-rhagfyr-2022-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

Cynnwys

Cyflwyniad

Prif bwyntiau

Crynodeb o'r staff a gyflogir

Gwybodaeth am ansawdd a methodoleg

Manylion cyswllt

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/staff-gyflogir-yn-uniongyrchol-gan-y-gig-ar-31-rhagfyr-2022-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

Cyflwyniad

Mae'r datganiad ystadegol hwn yn darparu ystadegau cryno ar staff a gyflogir yn uniongyrchol gan GIG Cymru. Mae'r datganiad yn cynnwys dadansoddiadau yn ôl grwpiau staff ar lefel Cymru. Cyhoeddir data manylach fesul sefydliadau'r GIG ar [StatsCymru](#).

Caiff yr ystadegau eu llunio ar sail data o Gofnod Staff Electronig y GIG, a ddarperir gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru. Mae lefelau staffio yn cael eu mesur orau drwy ddefnyddio data cyfwerth ag amser llawn (FTE). Mae un FTE yn gyfwerth â pherson yn gweithio'r oriau safonol ar gyfer ei radd. Mae cyfanswm niferoedd y staff ('cyfrif pennau') hefyd yn cael eu darparu ac fe'u defnyddir i [ddadansoddi nodweddion](#).

Mae'r datganiad hwn yn canolbwyntio ar y flwyddyn ddiweddaraf. Nid yw data'r gweithlu ar gyfer gwasanaethau gofal sylfaenol fel [Ymarferwyr Meddygol Cyffredinol](#) ac [Ymarferwyr Deintyddol y GIG](#) wedi'u cynnwys yn y datganiad hwn ac fe'u cyhoeddir ar wahân gan eu bod yn gontractwyr GIG annibynnol.

Cyhoeddir yr holl ddata yn y datganiad hwn ar [StatsCymru](#).

Prif bwyntiau

Rhwng 31 Rhagfyr 2021 a 31 Rhagfyr 2022 (o ran niferoedd cyfwerth ag amser llawn):

- cynyddodd nifer y staff 2,699 (3.0%) i 92,442
- cynyddodd nifer y staff meddygol a deintyddol 324 (4.3%) i 7,901
- cynyddodd nifer y staff nyrsio, bydwreigiaeth ac ymwelwyr iechyd 759 (2.1%) i 36,576

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://www.llyw.cymru/staff-gyflogir-yn-uniongyrchol-gan-y-gig-ar-31-rhagfyr-2022-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

- cynyddodd nifer y staff gwyddonol, therapiwtig a thechnegol 802 (5.2%) i 16,207
- cynyddodd nifer y staff gweinyddiaeth ac ystadau 983 (4.5%) i 23,006
- gostyngodd nifer y staff ambiwlans 105 (3.7%) i 2,747
- gostyngodd nifer y cynorthwywyr gofal iechyd a staff cymorth eraill 72 (1.2%) i 5,885
- cynyddodd nifer y staff eraill (gan gynnwys staff taliadau cyffredinol a staff anfeddygol eraill) 8 (6.9%) i 120

Rhwng 31 Rhagfyr 2021 a 31 Rhagfyr 2022, cynyddodd cyfanswm nifer y staff 2,959 (2.8%) i 106,995.


Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/staff-gyflogir-yn-uniongyrchol-gan-y-gig-ar-31-rhagfyr-2022-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

Crynodeb o'r staff a gyflogir

Ffigur 1: Nifer y staff cyfwerth ag amser llawn a gyflogir yn uniongyrchol gan GIG Cymru yn y swydd ar 31 Rhagfyr 2021 a 31 Rhagfyr 2022 yn ôl grŵp staff



Disgrifiad o ffigur 1: Siart far sy'n dangos mai'r grŵp nyrsio, bydwreigiaeth ac ymwelwyr iechyd yw'r grŵp mwyaf sy'n ffurfio bron i 40% o gyfanswm y gweithlu. Mae'r holl grwpiau ac eithrio'r grwpiau ambiwlans a'r cynorthwyr gofal iechyd a gweithwyr cefnogol eraill wedi cynyddu ers 31 Rhagfyr 2021.

Ffynhonnell: Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/staff-gyflogir-yn-uniongyrchol-gan-y-gig-ar-31-rhagfyr-2022-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

Crynodeb o staff y GIG yn ôl grŵp staff a blwyddyn ar StatsCymru

Mae rhai patrymau tymhorol yn y data hyn. Mae nifer y staff meddygol a deintyddol a nyrsio yn tueddu i leihau yn y cyfnod hyd at fis Awst ac yna'n cynyddu o fis Medi wrth i raddedigion ddechrau. O'r herwydd, gwneir cymariaethau â'r un chwarter o'r flwyddyn flaenorol.

Y cynnydd blynyddol mewn staff rhwng mis Rhagfyr 2021 a mis Rhagfyr 2022 oedd 3.0%. Dim ond y grwpiau ambiwlans a'r cynorthwyr gofal iechyd a gweithwyr cefnogol eraill sydd wedi gostwng mewn nifer ers 31 Rhagfyr 2021.

Gwybodaeth am ansawdd a methodoleg

Ffynhonnell y data yw Cofnod Staff Electronig y GIG a ddarperir gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn yr [adroddiad ansawdd](#).

Mae'r canrannau yn y datganiad hwn wedi'u talgrynnu i'r 0.1 agosaf. Mae newidiadau pwynt canran yn cael eu cyfrifo yn seiliedig ar y niferoedd heb eu talgrynnu.

Mae data am [Absenoldeb oherwydd salwch yn y GIG](#) yn cael eu cyhoeddi bob chwarter. Sylwch fod mân wahaniaethau yn y ffordd y mae grwpiau staff yn cael eu diffinio rhwng y ddau ddatganiad. Manylir ar y rhain yn yr [adroddiad ansawdd](#).

Nid yw data'r gweithlu ar gyfer [Ymarferwyr Meddygol Cyffredinol](#) ac [Ymarferwyr Deintyddol y GIG](#) yn cael eu cynnwys yn y datganiad hwn ac fe'u cyhoeddir ar wahân gan eu bod yn gontractwyr GIG annibynnol.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/staff-gyflogir-yn-uniongyrchol-gan-y-gig-ar-31-rhagfyr-2022-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

Ceir manylion llawn o faterion yn ymwneud ag ansawdd data wedi eu hadnabod yn y data dros y blynyddoedd diwethaf yn yr [adroddiad ansawdd](#).

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Hanfod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn sefydlu saith nod llesiant i Gymru sef Cymru fwy cyfartal, llewyrchus, cydnerth, iach a chyfrifol ar lefel fyd-eang, gyda chymunedau cydlynol a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. O dan adran (10)(1) o'r Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru (a) gyhoeddi dangosyddion ("dangosyddion cenedlaethol" sy'n gorfod cael eu cymhwyso at ddibenion mesur cynnydd tuag at gyflawni'r nodau llesiant, a (b) gosod copi o'r dangosyddion cenedlaethol gerbron Senedd Cymru. O dan adran 10(8) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, pan fo Gweinidogion Cymru yn diwygio'r dangosyddion cenedlaethol, rhaid iddynt, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol (a) gyhoeddi'r dangosyddion fel y'u diwygiwyd a (b) gosod copi ohonynt gerbron y Senedd. Fe gafodd y dangosyddion cenedlaethol hyn osodwyd gerbron y Senedd yn 2021. Mae'r dangosyddion a osodwyd ar 14 Rhagfyr 2021 yn disodli'r set a osodwyd ar 16 Mawrth 2016.

Mae gwybodaeth am y dangosyddion, ynghyd â naratif ar gyfer pob un o'r nodau llesiant a'r wybodaeth dechnegol gysylltiedig ar gael yn [adroddiad Llesiant Cymru](#).

Gwybodaeth bellach am [Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#).

Gallai'r ystadegau sydd wedi'u cynnwys yn y datganiad hwn hefyd ddarparu naratif ategol i'r dangosyddion cenedlaethol a gallai byrddau gwasanaethau cyhoeddus eu defnyddio mewn perthynas â'u hasesiadau llesiant lleol a'u cynlluniau llesiant lleol.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/staff-gyflogir-yn-uniongyrchol-gan-y-gig-ar-31-rhagfyr-2022-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

Manylion cyswllt

Ystadegydd: Bethan Sherwood

E-bost: ystadegau.iechyd@llyw.cymru

Cyfryngau: 0300 025 8099

SFR 41/2023

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.

Drllenwch ein [datganiad hygyrchedd](#) i gael rhagor o wybodaeth.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/staff-gyflogir-yn-uniongyrchol-gan-y-gig-ar-31-rhagfyr-2022-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).